# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y_Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Mehefin 2020

Amser y cyfarfod: 11.00

## 281(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu:

- Y cworwm i unrhyw bleidlais fod yn ddilys fydd pedwar Aelod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.10; a
- Yn unol â Rheol Sefydlog 34.11, caiff pob grŵp gwleidyddol (neu grwpiad a ffurfir at ddibenion Rheol Sefydlog 11) enwebu un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp neu yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, aelodau’r grŵp hwnnw yn ogystal ag unrhyw aelodau eraill o’r llywodraeth.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy’n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu’n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr achosion o Covid-19 yn deillio o ffatri 2 Sisters yn Llangefni? (TQ449)

**Gofyn i'r Gweinidog Addysg**

Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch trefniadau ar gyfer ail agor yr ysgolion am bedair wythnos cyn toriad yr haf? (TQ453)

## 6 Dad ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2020-21

(60 munud)

**NDM7335** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Iau, 28 Mai 2020.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

(vi) manylion am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 - 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y nodwyd yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid

(15 munud)

**NDM7336** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyllid i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mai 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Y Bill Cyllid 2019-21 (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 34

(5 munud)

**NDM7338** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Pleidleisio o Bell' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 34, fel y nodir yn Atodiad A o adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi bod y newidiadau hyn yn rhai dros dro, ac y byddant yn peidio â chael effaith pan gaiff y Senedd hon ei diddymu, neu pan fydd y Senedd yn penderfynu felly, pa un bynnag sydd gyntaf.

## 9 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Effaith argyfwng COVID-19 ar y sector celfyddydau

(30 munud)

**NDM7337** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar effaith argyfwng COVID-19 ar y sector celfyddydau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mehefin 2020.

## 10 Dadl Plaid Brexit - Codi'r Cyfyngiadau Symud

(60 munud)

**NDM7334** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i gyflymu'r gwaith o godi mesurau'r cyfyngiadau symud;

b) gweithio gyda Llywodraeth y DU i gefnogi dull gweithredu ar gyfer y DU gyfan;

c) hwyluso ail-agor economi Cymru yn gyflymach;

d) diystyru codi cyfraddau treth incwm Cymru i dalu costau ymestyn y cyfyngiadau symud.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Sicrhau bod y broses o lacio'r cyfyngiadau symud yn digwydd yn ddiogel drwy sicrhau bod y rhaglen lymaf bosibl o brofi, olrhain, ynysu a thrin yn cael ei rhoi ar waith.

## 11 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - COVID a'r economi

(60 munud)

**NDM7339** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod y pandemig coronafeirws yn argyfwng iechyd cyhoeddus ac yn argyfwng economaidd.

2. Yn croesawu'r manteision economaidd a ddaw i Gymru yn sgil bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig yn ystod y pandemig, gan gynnwys cyllid ar gyfer:

a) y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws sy'n gwarchod 316,500 o fywoliaethau yng Nghymru; a

b) y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig sy'n helpu 102,000 o bobl yng Nghymru.

3. Yn nodi â phryder adroddiad y 'Centre for Towns', sef 'Covid and our Towns' sy'n awgrymu y bydd economïau trefi'r Cymoedd ac arfordir gogledd Cymru ymhlith y rhai a fydd yn ddioddef waethaf yn sgîl y pandemig.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Cronfa Adfer Cymunedol Covid i ddarparu cymorth economaidd wedi'i dargedu ar gyfer y cymunedau hynny y bydd y pandemig wedi cael yr effaith fwyaf arnynt.

Centre for Towns - Covid and our Towns - 23 Ebrill 2020 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru sydd werth £500m. Mae'r Gronfa hon yn rhan o becyn gwerth £1.7 biliwn o gymorth ar gyfer busnesau yng Nghymru mewn ymateb i'r pandemig. Dyma'r pecyn mwyaf hael mewn unrhyw wlad yn y DU.

Yn nodi'r ffaith bod cyllid yr UE wedi helpu Llywodraeth Cymru i ymateb i bandemig COVID-19 a hefyd yn nodi na fydd Llywodraeth Cymru, heb gyllid olynol, yn gallu ymateb i unrhyw argyfwng yn y dyfodol i'r un graddau.

Yn nodi adroddiad y Centre for Towns 'Covid and our Towns' ac yn croesawu'r mesurau trawslywodraethol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno drwy ei Grŵp Gweithredu ynghylch Canol Trefi a'r agenda 'Trawsnewid Trefi' ar draws Cymru.

Yn cydnabod swyddogaeth bwysig cynghorau tref ac Ardaloedd Gwella Busnes creadigol a deinamig o safbwynt helpu canol trefi i adfer ar ôl effeithiau economaidd y Coronafeirws.

Yn croesawu'r gwaith arbrofol sy'n cael ei gyflawni drwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol o safbwynt ystyried dulliau newydd o sicrhau bod trefi a chymunedau ar

draws Cymru yn fwy cydnerth. Bydd hyn yn cefnogi ein hymateb i bandemig COVID-19.

Yn croesawu galwadau gan sefydliadau sy'n cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, FSB Cymru, TUC Cymru, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Chanolfan Llywodraethiant Cymru i Lywodraeth y DU waredu ar frys y cyfyngiadau cyllid sy'n cyfyngu'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i wario er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r pandemig.

Yn galw eto ar Lywodraeth y DU i ddatblygu pecyn sylweddol ar gyfer sbarduno'r economi, gan gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru tuag at adfer trefi a chymunedau ar draws Cymru mewn modd gwyrdd a phriodol yn sgil y pandemig.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** - Sian Gwenllian (Arfon)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Cronfa Adnewyddu Cymru Gyfan i ymdrin ag effeithiau'r pandemig, a fyddai'n trawsnewid y sectorau a nodwyd fel y rhai fyddai'n cael eu taro waethaf gan Covid-19, yn adeiladu Cymru gynaliadwy drwy baratoi'r ffordd i genedl ddi-garbon erbyn 2030 a datblygu ymdeimlad newydd o 'leoliaeth' sy'n gwerthfawrogi gwasanaethau cyhoeddus.

**Gwelliant 3** - Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai nawr yw'r amser i Lywodraeth y DU ddatganoli rhagor o bwerau ariannol i Lywodraeth Cymru fel y gall ofalu'n well am bobl Cymru yng ngoleuni'r pandemig Covid-19.

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 11.00, Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2020

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 19/06/2020 i'w hateb ar 24/06/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ55332

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r proffesiwn deintyddol yng Nghymru yn ystod y pandemig coronafeirws?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

2 OQ55303

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r cyfryngau lleol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr yn ystod y pandemig Covid-19?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ55329

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig Covid-19?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OQ55342

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r sector lletygarwch yng Nghymru yng ngoleuni Covid-19?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

5 OQ55336

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am economi Blaenau'r Cymoedd?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ55318

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Lywodraeth Cymru yn ail-agor sector twristiaeth Cymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

7 OQ55341

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth a roddir i rieni maeth yn ystod yr argyfwng coronafeirws?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

8 OQ55330

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg o fis Medi ymlaen o safon uchel?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

9 OQ55325

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi'r economi yn ystod y pandemig presennol?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

10 OQ55338

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwerth-R'yn ne-ddwyrain Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

11 OQ55308

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i weithwyr sydd wedi colli eu swyddi yn Laura Ashley yn y Drenewydd yn dilyn y cyhoeddiad nad yw'r rheolwyr wedi llwyddo i sicrhau busnes gweithredol ar gyfer gwaith manwerthu a gweithgynhyrchu?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

12 OQ55335

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y canllawiau teithio 5 milltir sy'n gysylltiedig â coronafeirws yng Nghymru?

## Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

**David Melding** *Canol De Cymru*

1 OQ55337

(e)

Pa gymorth mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r sector gwirfoddol yng ngoleuni'r pandemig coronafeirws?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2 OQ55340

**(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro lefelau cam-drin domestig yn ystod y cyfnod argyfwng?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

3 OQ55316

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i wneud o effaith y pandemig Covid-19 ar gydraddoldeb i fenywod yn y gweithle?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ55334

**(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ystod gweddill tymor y Senedd hon ar gyfer creu Cymru fwy cyfartal?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

5 OQ55331

**(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r sector elusennol a gwirfoddol yn ystod y pandemig Covid-19?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

6 OQ55339

**(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni blaenoriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

7 OQ55322

**(w)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad ynglyn ag ymateb y sector gwirfoddol i'r pandemic presennol?

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

1 OQ55307

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am les anifeiliaid mewn sŵau yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OQ55320

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Cynllun Cymorth i Ffermwyr Godro Cymru sydd wedi agor yn ddiweddar ar gyfer ceisiadau?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

3 OQ55315

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith adfer o ran llifogydd ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

4 OQ55321

**(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU am y Bil Amaeth?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

5 OQ55326

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi ffermwyr yn ystod y pandemig Covid-19?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

6 OQ55309

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau Llywodraeth Cymru i adfer ac atal llifogydd yn Rhondda Cynon Taf?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

7 OQ55313

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr yng nghanolbarth Cymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ55323

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd morlynnoedd llanw o ran cyflawni amcanion ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**9** OQ55306

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo lles anifeiliaid yn ystod y pandemig Covid-19?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**10** OQ55312

**(e)**

A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o sut mae'r pandemig coronafeirws wedi effeithio ar bobl sydd mewn tlodi tanwydd?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**1** OQ55324

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol am y rôl y gallant ei chwarae i fynd i'r afael â thlodi plant ar ôl yr argyfwng Covid-19?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**2** OQ55319

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio rheoliadau cynllunio er mwyn cynorthwyo busnesau i ddod allan o'r cyfnod cloi presennol?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**3** OQ55304

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae digartrefedd wedi'i leihau ers dechrau'r pandemig Covid-19?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**4** OQ55311

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berthynas Llywodraeth Cymru ag awdurdodau lleol yn ystod y pandemig Covid-19?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**5** OQ55327

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adnoddau ychwanegol a fydd ar gael i awdurdodau lleol i ymdrin â'r pwysau presennol?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**6** OQ55305

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer canol trefi yn Sir y Fflint ar ôl Covid-19?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**7** OQ55328

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r pwysau ariannol ychwanegol sy'n wynebu llywodraeth leol oherwydd y pandemig Covid-19?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**8** OQ55317

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth a roddir i gynghorau sir, tref a chymuned yn ystod y pandemig Covid-19?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**9** OQ55314

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni Cam 2 y Cynllun Digartrefedd?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**10** OQ55310

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi cynllunio yng Nghymru?